



## Cynllun Datblygu Lleol (2017 – 2033)

**Adborth o Seminarau Aelodau a Rhanddeiliaid Ebrill  
2018 – Amcanion Drafft**



## Cynnwys

Cyflwyniad.....	4
Crynodeb o'r Sylwadau a gafwyd.....	4
Amcanion Drafft ar gyfer y CDLI Newydd (2017-2033):.....	4
Y camau nesaf .....	5
Atodiad 1: Amcanion cyfredol y Cynllun Datblygu Lleol (hyd at 2021) .....	6
Atodiad 2: Crynodeb o'r Sylwadau a gafwyd .....	7

## Adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol (CDLI2: 2017 – 2033) – Amcanion

### Cyflwyniad

Cynhaliwyd seminarau gyda Chynghorwyr Sir (23 Ebrill 2018) a Rhanddeiliaid (26 Ebrill 2018) i'w cynnwys yn y gwaith o adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol ac roeddent yn cynnwys ffocws penodol ar yr Amcanion a ddylai gael eu cynnwys yn y CDLI newydd. Cyflwynwyd yr Amcanion CDLI cyfredol yn y seminar (gweler Atodiad 1). Treuliodd amser yn ystyried y Materion sy'n wynebu Sir Benfro a'r math o le y dylai Sir Benfro fod erbyn 2033 (fel y nodwyd yn 'Gweledigaeth'). Gofynnwyd i'r rhai a oedd yn bresennol, mewn grwpiau ymneilltuo i wneud y canlynol:

*Meddwl am y Materion allweddol y mae angen i'r Cynllun fynd i'r afael â nhw a'r math o le dylai Sir Benfro fod yn 2033 – dylai'r Amcanion nodi sut y bydd hyn yn digwydd.*

- A ddylai unrhyw Amcanion aros yr un peth?
- A ddylai unrhyw Amcanion newid?
- A oes angen unrhyw Amcanion ychwanegol arnom?

Cofnodwyd y sylwadau ar siartiau troi a'u bwydo'n ôl i'r ystafell, gan roi cyfle i ddiwygio neu ychwanegu at y sylwadau.

### Crynodeb o'r Sylwadau a gafwyd

Crynoir y sylwadau yn Atodiad 2. Mae'r tabl yn cynnwys sylwadau ac yn nodi pa rai a ymgorfforwyd yn yr Amcanion drafft ar gyfer y CDLI Newydd.

### Amcanion Drafft ar gyfer y CDLI Newydd (2017-2033):

- A) Lliniaru ac ymateb i her Newid yn yr Hinsawdd .
- B) Darparu datblygiad o ansawdd uchel lle y cefnogir creu lle gan ddylunio cynaliadwy sy'n ymateb i dreftadaeth ddiwylliannol ac adeiledig.
- C) Cynnal a gwella'r economi wledig a threfol drwy gefnogi busnesau newydd, arallgyfeirio gwledig, newid arferion amaethyddol, yr economi ymwelwyr, ac ehangu Busnesau Bach a Chanolig.
- D) Cynnal cymunedau dyfeisgar drwy ddarparu amrywiaeth a chymysgedd o gartrefi
- E) Adeiladu ar leoliad strategol y Sir ar gyfer datblygiadau ynni gwyrdd, morol a datblygiadau sy'n ymwneud â phorthladdoedd


- F) Diogelu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg
- G) Cefnogi amrywiaeth o ddefnyddiau mewn Canol Trefi er mwyn helpu i'w hadfywio.
- H) Hyrwyddo amgylcheddau hygrych ac iach i bobl a bywyd gwyllt drwy ddiogelu a darparu seilwaith gwyrdd.
- I) Gwella mynediad i nwyddau a gwasanaethau drwy hwyluso gwelliannau mewn seilwaith a chyfleusterau a chyfeirio datblygiad i leoliadau cynaliadwy.
- J) Diogelu tirwedd ac amgylchedd y Sir.

### Y camau nesaf

Bydd ymgynghoriad anffurfiol ar y Materion y dylai CDLI fynd i'r afael â nhw, y Weledigaeth ddrafft a'r Amcanion drafft ochr yn ochr ag opsiynau Twf ar gyfer y Strategaeth CDLI yn cael eu cynnal rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2018. Bydd hyn yn cynnwys gweithdai penodol gydag Aelodau, Rhanddeiliaid a Chynghorau Cymuned, ond bydd pob papur hefyd yn cael ei gyhoeddi ar y wefan gyda chyfle i aelodau o'r cyhoedd roi sylwadau. Yn dilyn yr ymgynghoriad anffurfiol hwn, caiff y Strategaeth a Ffebrir ei chyhoeddi ym mis Rhagfyr 2018, a fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol.

Atodiad 1: Amcanion cyfredol y Cynllun Datblygu Lleol (hyd at 2021)

Ffigur 1: Amcanion Strategol er mwyn Gwireddu'r Weledigaeth – Dangosir Is-Amcanion sy'n eu Datblygu yn Ffigur 2.



Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Penfro – Mabwysiadwyd 2013



Atodiad 2: Crynodeb o'r Sylwadau a gafwyd

Amcanion - Crynodeb o'r Sylwadau	Ymateb	Gweithred a Argymhellir
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn fodlon ar y rhan fwyaf o'r amcanion.</li> <li>• Mae'n bwysig peidio â gosod mwy o reoliadau ar Amcan A gan fod datblygwyr eisoes yn troi eu cefnau ar Gymru am fod eu rheoliadau yn fwy llym na rhai Lloegr ac mae hyn yn rhwystro datblygiad.</li> <li>• Cadw Amcan A</li> <li>• Cadw Lliniaru ac ymateb i her newid yn yr hinsawdd</li> <li>• ac a) Lliniaru ac ymateb i her newid yn yr hinsawdd</li> </ul>	<p>Roedd nifer o grwpiau yn teimlo bod Amcan A: Lliniaru ac Ymateb i her Newid yn yr Hinsawdd yn berthnasol o hyd ac nad oedd angen ei aralleirio.</p>	<p>Cadw A) Lliniaru ac Ymateb i her Newid yn yr Hinsawdd fel Amcan.</p>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cadw amcanion B</li> <li>• Ie - B) cyflawni rhagoriaeth ac ansawdd o ran dylunio</li> </ul>	<p>Cefnogaeth gan ddau grŵp i gadw B) Cyflawni rhagoriaeth ac ansawdd o ran dylunio. Fodd bynnag, awgrymodd grwpiau eraill y dylid diwygio'r Amcan hwn i fynd i'r afael â materion dylunio am oes (gweler y sylwadau isod).</p>	<p>Gweler y sylwadau a'r diwygiadau i B) isod.</p>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Amcan C - cynnal a gwella'r economi wledig a</li> </ul>	<p>Awgrym gan dri grŵp i gadw C) Cynnal a gwella'r economi wledig a threfol. Fodd bynnag, mae grwpiau</p>	<p>Gweler isod y diwygiadau a gynigiwyd i'r Amcan hwn.</p>

Amcanion - Crynodeb o'r Sylwadau	Ymateb	Gweithred a Argymhellir
<p>threfol. Roedd y grŵp yn teimlo bod cadw elfennau gwledig a threfol ar wahân yn ddefnyddiol i gyfleu'r neges nad oedd y Cynllun ar gyfer yr ardaloedd trefol yn unig.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cefnogi amcan C</li> <li>• Cadw amcan C</li> </ul>	<p>eraill wedi awgrymu geiriad ychwanegol er mwyn ehangu ar hyn. Gweler y diwygiadau a awgrymwyd isod.</p>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cadw amcan D</li> </ul>	<p>Mae grwpiau eraill wedi awgrymu diwygiadau i'r amcan hwn (gweler isod).</p>	<p>Gweler isod y diwygiadau a gynigiwyd i'r Amcan hwn.</p>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cadw amcan E</li> </ul>	<p>Mae grwpiau eraill wedi awgrymu diwygiadau i'r amcan hwn (gweler isod).</p>	<p>Gweler isod y diwygiadau a gynigiwyd i'r Amcan hwn.</p>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Diogelu a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig (cadw un cyfeiriad, dileu'r un dyblyg).</li> <li>• Cadw amcan J</li> </ul>	<p>Roedd dau grŵp o blaid cadw'r amcan hwn. Fodd bynnag, ceir rhai awgrymiadau isod ynghylch rhannu'r amcan hwn ac ehangu ar y modd y gellir gwneud hyn.</p>	<p>Gweler isod y diwygiadau a gynigiwyd i'r Amcan hwn.</p>
<p><b>Pa amcanion y dylid eu newid?</b></p>		
<p>Amcan A - Lliniaru ac ymateb i her newid yn yr hinsawdd - gwneud yr</p>	<p>Mae lliniaru ac ymateb yn rhagweithiol fel dull gweithredu. Er y gellid gwneud yr amcan hwn yn fwy penodol, caiff y mathau penodol o ymateb sy'n deillio o hyn (megis cyfeirio datblygiad i ffwrdd o ardaloedd lle</p>	<p>Cadw A fel y caiff ei eirio ar hyn o bryd.</p>



Amcanion - Crynodeb o'r Sylwadau	Ymateb	Gweithred a Argymhellir
<p>amcan yn fwy rhagweithiol.</p> <p>A - angen cael dull mwy rhagweithiol o ymdrin â newid yn yr hinsawdd</p> <p>Gallai Amcan A gynnwys mwy o fanylion drwy gyfeirio at yr amgylchedd adeiledig a naturiol yng nghyd-destun newid yn yr hinsawdd.</p>	<p>mae risg o lifogydd a lleihau'r angen i deithio) eu nodi yn y dulliau o ymdrin â pholisi. Ehangir ar Amcan J hefyd i nodi dulliau o ymdrin â'r dirwedd a Seilwaith Gwyrdd (gweler y sylwadau isod).</p>	
<p>Amcan B - Cyflawni rhagoriaeth dylunio ac ansawdd amgylcheddol - newid i Cyflawni datblygiad o ansawdd uchel.</p> <p>Amcan B - Cyflawni rhagoriaeth dylunio ac ansawdd amgylcheddol - ychwanegu cyfeiriadau at yr economi gylchol ac at wastraff</p>	<p>Cytuno â'r awgrym i ehangu'r cyfeiriad at ddatblygiad o ansawdd uchel Awgrymodd rhai grwpiau amcanion newydd ynghylch creu lle a'r amgylchedd adeiledig a hanesyddol a diwylliant (gweler adran ddiweddarach) Awgrymu diwygio'r Amcan hwn i drafod y materion hyn a chanolbwyntio ar sut y dylai dylunio ymateb i dreftadaeth ddiwylliannol ac adeiledig er mwyn cefnogi creu lle. Awgrymu y dylid trafod materion ynghylch cartrefi am oes o dan Amcan D ac yr ymdrinnir â materion gwastraff eisoes yn Amcan A (cyfeiriad at wasanaethau).</p>	<p>Aralleirio Amcan B fel ei fod yn darllen fel a ganlyn: Darparu datblygiad o ansawdd uchel lle y cefnogir creu lle gan ddylunio cynaliadwy sy'n ymateb i dreftadaeth ddiwylliannol ac adeiledig.</p>

Amcanion - Crynodeb o'r Sylwadau	Ymateb	Gweithred a Argymhellir
B - Cynnwys dylunio am oes		
<p>Mae angen dod ag Amcanion C a G at ei gilydd yng nghyd-destun swyddi yn hytrach na rhoi cyflogaeth a manwerthu yn ddau endid ar wahân os mai canlyniad y ddau yw swyddi.</p> <p>Amcan C - Cynnal a gwella'r economi wledig a threfol - ychwanegu morol.</p>	<p>Noder yr awgrymiadau i ehangu C. Mae hyn wedi ei wneud, gan ganolbwyntio ar fusnesau newydd, arallgyfeirio gwledig, twristiaeth a Busnesau Bach a Chanolig.</p>	<p>Cadw C).</p> <p>Cynnal a gwella'r economi wledig a threfol drwy gefnogi busnesau newydd, arallgyfeirio gwledig, newid arferion amaethyddol, yr economi ymwelwyr, ac ehangu Busnesau Bach a Chanolig.</p>
<ul style="list-style-type: none"> <li>D) Datblygu cymunedau llewyrchus gan ddarparu amrywiaeth a chymysgedd o gartrefi a gwasanaethau lleol – dileu 'datblygu' a rhoi 'cefnogi' yn ei le.</li> </ul>	<p>Noder y cyfeiriad gan nifer o'r grwpiau at 'Cynnal' neu Cefnogi/Cynaliadwy. Cytuno y bydd y Cynllun, yn y rhan fwyaf o achosion, yn cefnogi cymunedau sydd eisoes yn bodoli yn hytrach na datblygu rhai newydd. Er mwyn trafod y cymunedau Dyfeisgar a'r cyfeiriadau at Gartrefi i Bawb o'r Weledigaeth, awgrymu aralleirio fel ei fod yn darllen fel a ganlyn: “Cynnal cymunedau dyfeisgar drwy ddarparu amrywiaeth a chymysgedd o gartrefi”.</p>	<p>Diwygio D fel ei fod yn darllen fel a ganlyn: “Cynnal cymunedau dyfeisgar drwy ddarparu amrywiaeth a chymysgedd o gartrefi.”</p>

Amcanion - Crynodeb o'r Sylwadau	Ymateb	Gweithred a Argymhellir
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Amcan D - Datblygu cymunedau llewyrchus gan ddarparu amrywiaeth a chymysgedd o gartrefi a gwasanaethau lleol – rhoi 'cynnal' yn lle 'datblygu' a rhoi 'drwy' cyn 'darparu'.</li> <li>• D - cymunedau ymgysylltiol a chynaliadwy</li> <li>• Mae angen uno Amcanion D ac I</li> </ul>	<p>Noder bod I eisoes yn mynd i'r afael â materion mynediad at wasanaethau.</p>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Amcan E) Mae cyfeiriadau at ddatblygiadau morol a phorthladd yn dda, ond hefyd yn sôn am weithgareddau cyflogaeth ar raddfa lai.</li> <li>• Amcan E - Adeiladu ar leoliad strategol y Sir ar gyfer datblygiadau ynni a datblygiadau sy'n ymwneud â phorthladdoedd - rhoi 'glân' cyn 'ynni' ac ychwanegu cyfeiriad at</li> </ul>	<p>Noder y sylwadau ynghylch cyfeiriad at ddatblygiad morol ac ynni glân. Amcan C) yn ymgorffori hyrwyddo gweithgareddau cyflogaeth ar raddfa lai.</p>	<p>Diwygio fel ei fod yn darllen fel a ganlyn: E: “Adeiladu ar leoliad strategol y Sir ar gyfer datblygiadau ynni gwyrdd, morol a datblygiadau sy'n ymwneud â phorthladdoedd”</p>

Amcanion - Crynodeb o'r Sylwadau	Ymateb	Gweithred a Argymhellir
<p data-bbox="300 312 633 379">bwysigrwydd busnesau bach a chanolig.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li data-bbox="253 427 672 788">• Adeiladu ar leoliad strategol y Sir ar gyfer datblygiadau ynni a datblygiadau sy'n ymwneud â phorthladdoedd. Ychwanegu cyfeiriadau at ddylanwadau morol a busnesau bach a chanolig.</li> <li data-bbox="253 836 649 1011">• E - yn cydnabod bod hynny'n cynnwys ynni adnewyddadwy ond nad yw hynny'n cael ei bwysleisio</li> <li data-bbox="253 1059 672 1235">• E - nid datblygiad sy'n ymwneud â phorthladdoedd yn unig, angen ehangu'r rhwyd i gynnwys ceir trydan ac ati</li> </ul>		

Amcanion - Crynodeb o'r Sylwadau	Ymateb	Gweithred a Argymhellir
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Diwygio Amcan F fel ei fod yn darllen fel a ganlyn 'Cefnogi datblygu rôl unigryw Trefi (neu Gymunedau) Sir Benfro.</li> <li>• F - cynnwys cyfeiriad at bob ffocws cymunedol gwledig i ddarparu cydbwysedd gwell (roedd rhai Cynghorwyr o blaid cadw'r cyfeiriad at Ffocws yr Hafan)</li> <li>• F - dileu'r cyfeiriad at 'Ffocws yr Hafan' a rhoi cyfeiriad at Fargen Ddinesig Bae Abertawe yn ei le</li> <li>• Ychwanegu cefnogaeth i adfywio canol trefi - yn fasnachol ac am resymau preswyl o ansawdd uwch - ystyried cyfleoedd i greu diwylliant caffi.</li> <li>• Cefnogi datblygiad rôl unigryw trefi Sir Benfro, yn</li> </ul>	<p>Dileu'r amcan hwn gan ei fod yn dyblygu G. Cael amcan newydd penodol ar gefnogi cymunedau sy'n trafod y materion ynghylch yr iaith Gymraeg.</p>	<p>Gweler yr adran amcanion newydd isod ar gyfer Amcan diwygiedig F.</p>

Amcanion - Crynodeb o'r Sylwadau	Ymateb	Gweithred a Argymhellir
<p>enwedig o fewn Ffocws yr Hafan. Dileu 'trefi' a rhoi 'cymunedau' yn ei le. Dileu 'yn enwedig o fewn Ffocws yr Hafan' (dylai'r amcan fod yn gymwys ar draws ardal gyfan y Cynllun).</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Amcan F - Cefnogi'r gwaith o ddatblygu rôl unigryw trefi Sir Benfro, yn enwedig o fewn y Ddau Gleddau - rhoi 'aneddiadau' yn lle 'trefi' a dileu 'yn enwedig' o fewn Ffocws yr Hafan' - oherwydd bydd yn gymwys ar draws ardal gyfan y Cynllun.</li> <li>• F – nid yw'r iaith yn hawdd, ni chaiff ei mynegi'n dda a gallai fynd yn hen ffasiwn</li> </ul>		

Amcanion - Crynodeb o'r Sylwadau	Ymateb	Gweithred a Argymhellir
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'n bwysig bod Amcan G yn caniatáu ar gyfer defnydd ehangach mewn canol trefi er mwyn helpu i'w hadfywio</li> <li>• G - dylid cyfeirio at 'canol trefi sy'n methu' - dylid canolbwyntio ymdrechion ar y rhai nad ydynt yn gwneud yn dda, gan annog pobl i fyw mewn trefi</li> <li>• Adfywio Canol Trefi. Newid i 'Adfywio cymunedau drwy ddatblygiadau masnachol a phreswyl cymysg mewn canol trefi'. Fel arall, dileu'r geiriad cyfredol a rhoi hyn yn ei le 'Ymdrin â datblygiad canol trefi mewn ffordd wahanol'.</li> <li>• Amcan G - Adfywio canol trefi - mae cysylltiadau ag Amcanion C ac F, felly</li> </ul>	<p>Uno F a G - ehangu'r cyfeiriad at bob Tref a nodi ffocws ar sefydlu cymysgedd o ddefnyddiau ac adfer bywiogrwydd er mwyn adlewyrchu'r materion.</p>	<p>Diwygio G fel ei fod yn darllen fel a ganlyn: Cefnogi amrywiaeth o ddefnyddiau mewn Canol Trefi er mwyn helpu i'w hadfywio.</p>

Amcanion - Crynodeb o'r Sylwadau	Ymateb	Gweithred a Argymhellir
<p>ymgorffori'r dyhead hwn o bosibl ynddynt.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>G - angen ailystyried beth yw diben canol trefi, gallai eu rôl a'u swyddogaeth fod ym maes manwerthu arbenigol, ond mae angen rôl ehangach arnynt hefyd e.e. denu diddordeb cymunedau mewn neuaddau ac ati.</li> </ul>		
<p>H - testun newydd wedi ei awgrymu 'Datblygu economi ymwelwyr sy'n seiliedig ar yr amgylchedd naturiol, hanesyddol ac adeiledig'. Hefyd dylai fod rôl i fanwerthu yma.</p> <p>Dileu un o'r cyfeiriadau at ddiogelu a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig (dyblygir yr eitem hon yn yr amcanion cyfredol)</p>	<p>Cytuno bod hyn yn dyblygu J i raddau ar hyn o bryd. Awgrymu cadw J ond ymgorffori cyfeiriad at yr economi ymwelwyr o fewn C.</p>	<p>Dileu H fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd.</p>



Amcanion - Crynodeb o'r Sylwadau	Ymateb	Gweithred a Argymhellir
<p>Datblygu economi ymwelwyr o ansawdd yn seiliedig ar ymdeimlad cryf o le ac amgylchedd naturiol ac adeiledig eithriadol. Symleiddio a rhoi 'Datblygu economi ymwelwyr o ansawdd yn seiliedig ar ymdeimlad cryf o le'. Cyfeirio efallai at yr agweddau penodol ar aneddiadau gwahanol, sy'n rhoi pwynt gwerthu unigryw i bob un.</p> <p>Cwmpesir y cyfeiriadau at amgylchedd naturiol ac adeiledig gan amcan arall ac maent yn gymwys yn gyffredinol, nid i'r economi ymwelwyr yn unig.</p> <p>H - dylai fod yn cefnogi yn hytrach na datblygu'r economi ymwelwyr gan ei bod eisoes ar waith, cydnabod yr angen i ymestyn i dymhorau ymylol</p>		

Amcanion - Crynodeb o'r Sylwadau	Ymateb	Gweithred a Argymhellir
<p>Amcan H - Datblygu economi ymwelwyr o ansawdd yn seiliedig ar ymdeimlad cryf o gynllun, ac amgylchedd naturiol ac adeiledig eithriadol - dileu 'amgylchedd naturiol ac adeiledig eithriadol' gan fod cyfeiriad at hyn hefyd yn</p>		
<p>I – cynnwys cyfeiriad at fferïau. Peth ansicrwydd ynghylch beth roedd yr amcan hwn yn ceisio ei ddweud.</p> <p>I - gwella mynediad i nwyddau a gwasanaethau - ychwanegu cyfeiriad at ddulliau seilwaith modern</p> <p>Amcan I - Gwella mynediad i nwyddau a gwasanaethau - ehangu i wneud cyfeiriadau at gludiant, TG ac agweddau gofodol.</p>	<p>Noder mai'r bwriad yw cael amcan bras sy'n ymgorffori seilwaith gwell fel telathrebu a'r gallu i gael gafael ar wasanaethau yn hawdd megis ysgolion, gwaredu gwastraff a chludiant. Awgrymu aralleirio i nodi Gwella mynediad i nwyddau a gwasanaethau drwy hwyluso gwelliannau mewn seilwaith a chyfeirio datblygiad tuag at leoliadau cynaliadwy.</p>	<p>Diwygio Amcan I) fel ei fod yn darllen fel a ganlyn: Gwella mynediad i nwyddau a gwasanaethau drwy hwyluso gwelliannau mewn seilwaith a chyfleusterau a chyfeirio datblygiad i leoliadau cynaliadwy.</p>

Amcanion - Crynodeb o'r Sylwadau	Ymateb	Gweithred a Argymhellir
<p>Gwella mynediad i nwyddau a gwasanaethau (I. Egluro beth mae hyn yn ei olygu - mae cludiant, TG a manwerthu /darpariaethau gwasanaeth i gyd yn agweddau ar hyn.</p> <p>I - Gallai gwella gael ei ystyried fel mwy o ffyrdd! Angen cydnabod bod cefnogi mynediad yn ymwneud â datblygiad cywir yn y lle cywir a bod pobl hefyd yn gwneud dewisiadau oddi ar y grid.</p>		
<ul style="list-style-type: none"> <li>O ran Amcan J gallem fod yn gwneud mwy i ddiogelu a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig.</li> <li>Amcan J - Diogelu a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig - rhoi 'hanesyddol' ar ôl 'naturiol', ychwanegu cyfeiriad at dirwedd (gan</li> </ul>	<p>Awgrymu canolbwyntio ar y materion sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd a'r dirwedd a chyflwyno amcan newydd sy'n gysylltiedig â dylunio mewn perthynas â'r amgylchedd hanesyddol ac adeiledig.</p>	<p>Diwygio J fel ei fod yn darllen fel a ganlyn:</p> <p>Diogelu tirwedd ac amgylchedd y Sir.</p>

Amcanion - Crynodeb o'r Sylwadau	Ymateb	Gweithred a Argymhellir
<p>nad ymdrinnir â hyn rywle arall) ac efallai ychwanegu rhywbeth am seilwaith gwyrdd, cynefinoedd ac ecosystemau.</p> <p>J - cynnwys yr amgylchedd hanesyddol a diwylliant ac adfer yr amgylchedd. Aralleirio'r eitemau ar amgylchedd arloesol o ansawdd uchel</p>		
<p><b>A oes angen unrhyw amcanion newydd arnom?</b></p>		
<p>Dim - bydd arallgyfeirio amcanion presennol yn ddigon.</p>	<p><b>Nodwyd</b></p>	<p>Dd/G</p>
<p>. Oes - yr iaith Gymraeg a'r amgylchedd hanesyddol Ychwanegu cyfeiriad at dai newydd gyda</p>	<p>Mae cyfeiriadau at yr amgylchedd hanesyddol bellach wedi eu cynnwys yn Amcan B ac yn gymwys i'r iaith Gymraeg yn Amcan F.</p>	<p>Gweler y sylwadau uchod ar B) a'r amcan newydd arfaethedig F (isod).</p>

Amcanion - Crynodeb o'r Sylwadau	Ymateb	Gweithred a Argymhellir
<p>deunyddiau amgen arloesol newydd gydag ymwybyddiaeth amgylcheddol gynyddol. Tai parod</p> <p>Agweddau diwylliannol - yr iaith Gymraeg, yr amgylchedd adeiledig ar ati</p> <p>.</p> <p>Mae angen rhoi mwy o sylw i dreftadaeth ddiwylliannol a gellid ei hychwanegu at Amcan J.</p>		
<p>Creu lle Cydnabod diwylliant a'r iaith Gymraeg Darparu tai i ddiwallu anghenion y gymuned</p>	<p>Nodwyd - testun newydd yn B nawr yn nodi pwysigrwydd creu lle. Mae D wedi cael ei ddiwygio i ganolbwyntio ar anghenion tai y gymuned. Mae F bellach yn canolbwyntio ar yr iaith Gymraeg.</p>	<p>Gweler y sylwadau uchod ar D). Amcan F newydd arfaethedig: Diogelu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg</p>
<p>Amcanion iechyd - sawl agwedd - ansawdd aer, ansawdd amgylcheddol, bywydau egniol iach i</p>	<p>Cytuno - cynnig Amcan H newydd i fynd i'r afael â hyn. J) hefyd wedi ei ddiwygio i fynd i'r afael ag ansawdd amgylcheddol yn ogystal â'r dirwedd.</p>	<p>Gweler y sylwadau uchod ar J) . Amcan H newydd:</p>

Amcanion - Crynodeb o'r Sylwadau	Ymateb	Gweithred a Argymhellir
<p>breswylwyr ac ymwelwyr a'r ddarpariaeth o ran gofal iechyd. Agweddau hamdden - gan gynnwys Llwybr yr Arfordir, Rhwydwaith beicio ac ati.</p>		<p>Hyrwyddo amgylcheddau hygyrch ac iach i bobl a bywyd gwylt drwy ddiogelu a darparu seilwaith gwyrdd.</p>
<p>Bydd mudo'n cael effaith ar bob un o'r amcanion a gall fod yn fuddiol iddo gael amcan.</p>	<p>Er bod mudo yn debygol o gael effaith sylweddol ar lefel y twf sydd ei angen ar y Cynllun i gyflawni, ni fyddai amcan ynghylch lleihau neu gynyddu mudo yn briodol gan nad yw'n rhywbeth y gall y Cynllun ei reoli.</p>	<p>Dd/G</p>
<p>Rhywbeth ar fwynau</p>	<p>Ymgorfforir hyn gan I (mynediad i nwyddau a gwasanaethau).</p>	<p>Dd/G</p>
<p>Rhywbeth ar Wastraff.</p>	<p>Ymgorfforir hyn gan I (mynediad i nwyddau a gwasanaethau).</p>	<p>Dd/G</p>
<p>Rhywbeth ar leihau llygredd a halogiad.</p>	<p>Ymgorfforir hyn gan A (Newid yn yr hinsawdd).</p>	<p>Dd/G</p>